OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 299

Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol, Atodol a Deilliadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2023

Diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

9.—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) hepgorer y diffiniad o "Cyngor Iechyd Cymuned", a

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "Corff Llais y Dinesydd" ("*Citizen Voice Body*") yw Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru, a sefydlwyd o dan adran 12(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020;".

(3) Yn rheoliad 7(1)(h) (ymgynghori ar asesiadau o anghenion fferyllol), yn lle "unrhyw Gyngor Iechyd Cymuned ar gyfer ei ardal" rhodder "Corff Llais y Dinesydd".

(4) Yn Atodlen 3—

(a) ym mharagraff 4(2)(c) (hysbysu ynghylch bwriad i wneud penderfyniad mewn cysylltiad ag ardaloedd rheoledig), yn lle "y Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer yr ardal" rhodder "Corff Llais y Dinesydd", a

(b) ym mharagraff 9(1)(e) (personau a chyrff sydd i'w hysbysu), yn lle "unrhyw Gyngor Iechyd Cymuned sy'n gwasanaethu ardal y Bwrdd Iechyd Lleol" rhodder "Corff Llais y Dinesydd".

(5) Yn Atodlen 5—

(a) ym mharagraff 2(c)(ii) (corffori darpariaethau), yn lle ", a" rhodder ".",

(b) hepgorer paragraff 2(d) (corffori darpariaethau),

(c) ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

"**2A.** Cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd

Rhaid i fferyllydd GIG sy'n darparu gwasanaethau fferyllol roi sylw i'r cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd sydd wedi ei lunio a'i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 19(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020") (i'r graddau y mae'r cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol (o fewn ystyr y termau hynny yn adran 21 o Ddeddf 2020).",

(d) hepgorer paragraff 28(3)(a)(vii) (llywodraethu clinigol),

(e) ym mharagraff 28(3)(a)(viii) (llywodraethu clinigol) hepgorer "a",

(**1**) O.S. 2020/1073 (Cy. 241), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(f) ym mharagraff 28(3)(a)(ix) (llywodraethu clinigol), ar ôl "Deddf Cydraddoldeb 2010," mewnosoder "a",

(g) ar ôl paragraff 28(3)(a)(ix) (llywodraethu clinigol) mewnosoder—

"(x) gofyniad bod rhaid i'r fferyllydd GIG roi sylw i'r cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd sydd wedi ei lunio a'i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 19(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020") (i'r graddau y mae'r cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol (o fewn ystyr y termau hynny yn adran 21 o Ddeddf 2020),".

(6) Yn Atodlen 6—

(a) ym mharagraff 1(c)(ii) (corffori darpariaethau), yn lle ", a" rhodder ".",

(b) hepgorer paragraff 1(d) (corffori darpariaethau),

(c) ar ôl paragraff 1 mewnosoder—

"**1A.** Cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd

Rhaid i gontractwr cyfarpar GIG sy'n darparu gwasanaethau fferyllol roi sylw i'r cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd sydd wedi ei lunio a'i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 19(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020") (i'r graddau y mae'r cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol (o fewn ystyr y termau hynny yn adran 21 o Ddeddf 2020).",

(d) hepgorer paragraff 17(3)(a)(vii) (llywodraethu clinigol),

(e) ym mharagraff 17(3)(a)(viii) (llywodraethu clinigol) hepgorer "a",

(f) ym mharagraff 17(3)(a)(ix) (llywodraethu clinigol), ar ôl "Deddf Cydraddoldeb 2010," mewnosoder "a",

(g) ar ôl paragraff 17(3)(a)(ix) (llywodraethu clinigol) mewnosoder—

"(x) gofyniad bod rhaid i'r contractwr cyfarpar GIG roi sylw i'r cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd sydd wedi ei lunio a'i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 19(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020") (i'r graddau y mae'r cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol (o fewn ystyr y termau hynny yn adran 21 o Ddeddf 2020),".

(7) Yn Atodlen 7—

(a) ym mharagraff 2(c)(ii) (corffori darpariaethau), yn lle ", a" rhodder ".",

(b) hepgorer paragraff 2(d) (corffori darpariaethau),

(c) ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

"**2A.** Cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd

Rhaid i feddyg sy'n darparu gwasanaethau fferyllol roi sylw i'r cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd sydd wedi ei lunio a'i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 19(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020") (i'r graddau y mae'r cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol (o fewn ystyr y termau hynny yn adran 21 o Ddeddf 2020)."